

24 Gorffennaf 2018

Annwyl Ymgynghorai,

Cynnig i sefydlu uned feithrin â 24 rhan amser yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Y Wig a Marcroes

Ar 24 Gorffennaf 2018, penderfynodd gorff llywodraethu ar y cynnig i sefydlu uned feithrin yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Y Wig a Marcroes.

Cynhaliodd y gorff llywodraethu ymgynghoriad llawn gydag ymgynghoreion penodol a phenderfynwyd cyhoeddi hysbysiad statudol ar y cynnig i sefydlu uned feithrin. Ystyriodd y gorff llywodraethu, wrth wneud ei benderfyniad, holl adroddiadau blaenorol y gorff llywodraethu yn ymwneud â'r cynnig a'r ymatebion i'r ymgynghoriad fel y nodir yn yr Adroddiad Ymgynghori. Nodwyd na dderbyniodd y gorff llywodraethu unrhyw wrthwynebiadau statudol mewn ymateb i'r hysbysiad statudol hwn ar y cynnig. Gan ystyried yr holl faterion, mae'r gorff llywodraethu wedi cymeradwyo'r cynnig. O ganlyniad caiff uned feithrin ei sefydlu yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Y Wig a Marcroes o fis Medi 2019.

Wrth benderfynu ar y cynnig, bu'r gorff llywodraethu yn fodlon y bydd yn cynnig yn:

- Creu darpariaeth gynradd pob oedran ar gyfer plant o 3 i 11 oed er mwyn gwella safonau yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Y Wig a Marcroes;
- Bodloni'r galw yn y dyfodol a chynnig lleoedd meithrin awdurdod lleol ychwanegol o safon yn Y Wig;
- Hwyluso pontio gwell i ddisgyblion;
- Parhau i gynig cymysgedd o ddarpariaeth grefydd, Cymraeg a Saesneg ym Mro Morgannwg.

Mae'r rhesymau dros y penderfyniad mewn perthynas â ffactorau wedi'u nodi yn y Cod Trefnidiaeth Ysgol fel a ganlyn;

➤ Ansawdd a Safonau Addysg

Mae'r cynnig yn cefnogi dilyniant a chynnydd yn nysgu plant o 3 oed ac yn cynnig cydlynid rhwng y sector meithrin a'r sector cynradd gan gynnig amgylchedd dysgu o ansawdd i blant. Bydd hyn yn galluogi pob plentyn i ddatblygu yn eu galluoedd yn gynnar er mwyn bod yn ddysgwyr llwyddiannus. Byddai'r cynnig hefyd yn galluogi adnabod ac ymyriadau cynnar i ddisgyblion gydag AAA, a fyddai'n cael ei adlewyrchu drwy bontio gwell a chanlyniadau addysgol gwell i'r disgyblion hyn.

Yn ychwanegol, Ddatblygir ethos a diwylliant yr ysgol ymhlith plant o oedran cynnar, gan arwain at berthnasoedd rhyngpersonol effeithiol a lefel uwch o ran hunan-barch. Caiff y trefniadau rhagorol sy'n bodoli eisoes ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion eu meithrin yn gynharach ac ymestyn a datblygu partneriaethau gyda theuluoedd o'r cyfle cynharaf er mwyn cryfhau trefniadau pontio rhwng y cartref / ysgol.

Byddai pontio disgyblion o'r feithrinfa i'r dosbarth derbyn yn cael ei hwyluso'n well gyda mwy o ffocws ar safonau. Byddai hyn yn cael ei gyflawni trwy broses gyffredin o dracio, monitro ac ymyrryd o'r feithrinfa i flwyddyn dau a'r tu hwnt.

- Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion


Bydd Clwstwr Llanilltud yn cadw'r ddarpariaeth crefydd, Cymraeg a Saesneg. Bydd nifer y lleoedd ysgol feithrin sydd ar gael i blant yn cynyddu i fodloni galw yn y dyfodol ac i gynnig lleoedd meithrinfa awdurdod lleol o ansawdd ychwanegol yn yr ardal.

Ni fydd effaith o ganlyniad i'r cynnig ar deithiau disgyblion a'r llwybrau cerdded sydd ar gael i'r ysgol gan y bydd yr uned feithrin yn gweithredu ar y safle presennol. Ni fydd y cynnig yn newid trefniadau trafniadaeth ysgol, cymhwyster neu hygyrchedd.

- Ariannu addysg

Mae'r cyllid er mwyn adeiladu'r uned feithrin newydd yn hollol ddibynnol ar gyfraniadau addysg Adran 106 gan ddatblygiad y safle yng Ngerddi St James. Mae'r holl arian wedi cael ei dalu i'r awdurdod lleol yn barod. Cyfanswm y cyfraniad ar gyfer lleoedd cynradd a meithrin yw £800,000.

Yn gywir



Mark Harris  
Cadeirydd y Llywodraethwyr